# papur priordy



**DWY LAW YN ERFYN SYDD YN Y DARLUN**
**WRTH YMYL FY NGWELY I;**
**BOB BORE A NOS MAE'U GWEDDI'N UN DLOS,**
**MI WN ER NA CHLYWAF HI.**

*T Rowland Hughes (1903-1949)*
*Caneuon Ffydd: 139*

*Dewiswyd gan Rhian Jones. Gweler y rheswm am y dewis y tu mewn*


**Rhifyn 321**
**PAPUR EBRILL 2019**

# Gair gan ein Gweinidog

## Y Groes

Yn fy stydi, mae gen i groes bren a grewyd o ddarnau o bren o'r hen organ yng Nghapel Hebron, Clydach - y capel lle cefais fy magu.

Yng nghanol 60au'r ganrif ddiwethaf, bu tân mawr yn Hebron a llosgwyd yr organ, y pulpud a'r sedd fawr. Cofiaf fy mam-gu'n sôn amdani hithau ac aelodau eraill y Capel yn eu dagrau wrth weld y mwg yn codi y tu mewn i'r capel.

Ta beth, atgyweiriwyd y Capel. Cafwyd pulpud newydd a ddaeth o Gapel Y Gât, Cwmbwrla, Abertawe, yn dilyn ei gau. Prynwyd organ newydd o Gapel Bethlehem, Sblot, Caerdydd. Roedd Hebron yn ffodus iawn o gael gwasanaeth organydd penigamp yn y cyfnod



hwn, sef y diweddar Llywelyn Davies. Cofiaf amdano pan oeddwn yn blentyn yn newid o'i 'sgidiau i'w 'sgidiau organ' wrth eistedd wrth yr offeryn bob Sul, a rhyfeddais droeon o weld ei fysedd a'i draed yn cydsymud mor feistrolgar. Yn dilyn tân Hebron, daliodd Llywelyn Davies (nad oedd yn gyrru car) fws i Abertawe, bws o Abertawe i Gaerdydd, a bws o ganol Caerdydd i Gapel Bethlehem Sblot i weld yr organ. Cafodd ei swyno gan yr organ, a chymaint oedd ei awydd i'w brynu fel iddo ar ei union ddal bws o Sblot i Gaerdydd, o Gaerdydd i Abertawe, o Abertawe i Glydach a chael siec oddi wrth Drysorydd Hebron, cyn gwneud yr un daith tri bws yr holl ffordd yn ôl i Sblot er mwyn sicrhau'r organ - ac adref eto!

Ond er i Hebron gael organ newydd ysblennydd roedd darnau o'r hen organ i'w cael o hyd yn y Capel. Bu'r Parchg Guto Prys ap Gwynfor yn weinidog arnom am rai blynyddoedd ac yn ystod cyfnod ei weinidogaeth creodd ei dad yng nghyfraith Elis Richards (tad Siân ap Gwynfor) yn ôl yn y flwyddyn 1993 groes i mi o bren hen organ Hebron. A dyna'r groes sydd yn fy stydi hyd heddiw.

Ar fore Sul y Fam, 31 Mawrth 2019, ymhlith y mamau'n cymryd rhan yn yr oedfa yn Y Priordy roedd Heledd ap Gwynfor, merch Guto a Siân ap Gwynfor. Roedd Meredydd,ei mab, yno hefyd yn gwmni iddi. Roedd croes hen organ Hebron yn rhan o'r gwasanaeth y bore hwnnw. Cafodd ei chyflwyno fel arwydd fod yr Eglwys, fel mam i bawb ohonom,yn ein magu yn y ffydd. Dyma lun o Meredydd yn dal croes Hebron - yr union groes a greodd ei hen-ddatcu ar fy nghyfer 26 o flynyddoedd yn ôl.



Mae'r Groes yn pontio'r cenedlaethau a ninnau heddiw'n ei chofleidio fel y gwnaeth ein tadau a'n mamau gynt:

***Yng ngroes Crist y gorfoleddaf***
***Croes uwch difrod amser yw**.*

**Gweddïwn**

Cymorth ni O Dad i agosáu at groes dy Fab Iesu Grist.
Rydym yn amharod iawn i droi ein golwg at Galfaria
ac i syllu ar y Crist sy'n dioddef a marw ar y pren.
Er na fedrwn ddeall dyfnder a dirgelwch dy aberth,
diolchwn mai drosom ni y buost farw
i ddatguddio i ni gariad y Tad,
i'n cymodi ni â Duw ac â'n gilydd,
i agor i ni ddrysau'r bywyd tragwyddol.
Yn enw Iesu Grist



**Amen**


# DARLLENIADAU

(*yn cynnwys darlleniadau ar gyfer Wythnos Y Pasg)*

| Mis Ebrill | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Salm 126 |
| Wythnos 2 (Sul y Blodau) | Luc 19: 28-40 |
| Dydd Llun yr Wythnos Fawr | Ioan 12:10-11 |
| Dydd Mawrth yr Wythnos Fawr | Ioan 12:20-36 |
| Dydd Mercher yr Wythnos Fawr | Ioan 13:21-32 |
| Dydd Iau Cablyd | Ioan 13:1-17; 31b-35 |
| Dydd Gwener y Groglith | Ioan 19:17-30 |
| Dydd Sadwrn y Pasg | Mathew 27:57-66 |
| Wythnos 3 (Sul y Pasg) | Ioan 20:1-10 |
| Wythnos 4 (Sul y Pasg Bach) | Ioan 20: 19-31 |

## IS-BWYLLGOR YR ADEILADAU

Mae Is-bwyllgor yr Adeiladau'n fforwm pwysig iawn ym mywyd a gwaith ein capel.



Rydym yn hynod o ddiolchgar am y gwaith a gyflawnir gan yr aelodau.

Yn ein Cwrdd Diaconiaid diwethaf mynegodd **Wyn Tegryn Evans**, Cadeirydd yr Is-bwyllgor, ei ddymuniad i ymddeol fel Cadeirydd. Rydym yn deall yn iawn ei resymau am hyn ond yn hynod o falch hefyd o glywed y bydd yn parhau fel aelod. Gwerthfawrogwn waith cydwybodol a diflino Wyn dros y blynyddoedd a dymunwn yr iechyd gorau iddo i'r dyfodol.



Mae **Huw Jones** sydd eisoes yn aelod gweithgar o'r Is-bwyllgor yn barod i sefyll yn y bwlch a dod yn Gadeirydd. Mae hyn yn newyddion da gan ein bod yn gwybod yn iawn am ei ddoniau yn y maes hwn. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn y swydd. Mae Huw'n briod â Mwynwen a'u plant, Gwion Huw, Gwenan Fflur ac Elliw Mai, yn ffyddloniaid yn ein Hysgol Sul.

# BYWYD I BAWB - APÊL MADAGASCAR 2018-2019

**Yn y Papur ym mis Chwefror a Mawrth, cyflwynwyd gwybodaeth am ddau brosiect a gefnogir gan Apêl yr Undeb, sef helpu Akany Avoko - canolfan breswyl i adfer ac ailhyfforddi merched ifanc a SAf - Meddygfa, Deintyddfa a Fferyllfa, Y tro hwn rydym yn cyflwyno prosiect arall y mae Apêl yr Undeb yn ei helpu.**

**Coleg Diwinyddol Ivato**
**Addysg Amgylcheddol**
***'... ces fy ysbrydoli i warchod yr amgylchedd, yn arbennig i blannu coed ffrwythau.'***

Ers dyddiau'r cenhadon cyntaf yn sefydlu ysgolion ar yr ynys, rhoddir pwyslais mawr ym Madagascar ar addysg fel y ffordd i ddianc o dlodi. Mae gan FJKM [Church of Jesus Christ in Madagascar] nifer o ysgolion, coleg hyfforddi athrawon a cholegau sy'n hyfforddi bechgyn a merched ar gyfer y weinidogaeth.

Yn aml bydd yn rhaid i weinidog, yn arbennig yn y cymunedau diarffordd, fod yn dipyn o bopeth i bawb! Yn hyn o beth, datblygiad cyffrous diweddar yw addysg amgylcheddol yng Ngholeg Diwinyddol IVATO yn un o faestrefi'r brifddinas, sy'n cael ei redeg gan Juliette Narijaona, cyfarwyddwraig y coleg. Mae gan y coleg erddi llysiau, perllan ffrwythau eang a phlanhigfa ac maen nhw'n hunangynhaliol.



Daw'r darpar-weinidogion, a'u teuluoedd, i'r coleg ar gyfer eu blwyddyn olaf a'u dysgu sut i drin y tir a'u haddysgu fel bod modd trosglwyddo'r wybodaeth i eraill yn eu cymunedau. Mae tua 50 ohonynt yno ar hyn o bryd.

Ar derfyn eu cyfnod yng Ngholeg Ivato caiff pob un o'r myfyrwyr ddewis 10 o goed a phlanhigion ifanc i fynd gyda nhw i'w plannu lle bynnag y byddan nhw'n gweinidogaethu.

Mae'r Rhaglen Addysg Amgylcheddol yn dod o dan Adran Datblygiad FJKM, ond gweledigaeth a brwdfrydedd Juliette sydd y tu ôl i'r cwrs arloesol yn Ivato. Bu'n astudio am gyfnod yn Nhaiwan, lle dysgodd am warchod yr amgylchedd. Mae ganddi gynlluniau cyffrous i'r dyfodol.

**COSTAU**

***Mae'n costio tua £33,500 (145 miliwn Ariary) y flwyddyn i gynnal y coleg***

# Mynd am Sip!



Mae'r ddawn o godi arian at 'r holl achosion da
Yn rhywbeth i'w edmygu, boed aea' neu boed ha'.
Mae dynes yng Nghaerfyrddin – pencampwraig ar y gwaith,
Mae wedi codi cannoedd ar gannoedd ar ei thaith.
Mae wedi bod yn rhedeg da'r merched yn y pinc,
A beicio am filltiroedd, a hynny bron mewn winc.
Dilynodd lwybr Mari i'r Bala ddyddiau gynt,
Ac yn y gwres fe gollodd, do, bowndi ar ei hynt.
Mae ei phen-blwydd yn Ebrill, nid yw ar ben ei hun,
Ei braint yw rhannu'r diwrnod 'da Majesti Y Cwin!
A hithe nawr yn cyrraedd a dathlu'r hanner cant,
Ie, credwch fi neu beidio; mae'n mynnu bwrw bant
I'r gogledd unwaith eto; bydd hwn yn glamp o drip,
A theithio am filltiroedd ar hyd y weiren sip!
Gan godi swm o arian, ar gyfer yr apêl
I helpu Madagasgar; a hynny doed a ddêl.
Dymunwn ni bob llwyddiant, pob lwc, mae'n glamp o sbin!
Pwy yw y wraig ryfedda?   Neb llai na Beti-Wyn.

**Peter Hughes Griffiths**



## 16 EBRILL 2019 YW DIWRNOD MAWR Y SIP!




Festri Capel y Tabernacl, Caerfyrddin
**DARLITH**
gan
**MERERID HOPWOOD**
*"Paul Robeson, Ceiriog a'r Pasg"*
Eitem gerddorol yng ngofal
Gwyn Nicholas, Llanpumsaint
**Nos Wener, 12 Ebrill 2019 am 7.30**
Mynediad am ddim
(Casgliad at Lyfrau Llafar Cymru)
*Dan nawdd Gweithgor Bedyddwyr Gorllewin Myrddin*



### GAIR O DDIOLCH



Hoffai **Carwyn, Non ac Erin** ddiolch am gefnogaeth aelodau'r Priordy ar gyfer ymgyrch gwerthu sanau mis Mawrth. Bwriad yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth o **Syndrom Down** a chael pobl i siarad am y cyflwr. Rhwng aelodau'r Priordy a Chôr Seingar llwyddwyd i godi **£540** ar gyfer yr apêl a gwerthwyd **140 pâr o sanau**! Gwych iawn.

**Gareth Gravell**….



## Y GYMDEITHAS

***Nos Lun 4 Mawrth 2019***

### Dathlu Gŵyl Dewi

***DYMA'R*** adeg pan fyddwn yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant ac eleni eto bu'n wledd mewn mwy nag un ystyr. Dyma'r noson pan fydd y bechgyn yn gorfod gwneud y gwaith caled a gwisgo ffedogau, gweini'r cawl a chlirio'r holl lestri - ac yn wir, eleni eto gwnaethon nhw hynny gyda boddhad ac arddeliad â gwen ar eu hwynebau mewn Festri oedd dan ei sang ar gyfer yr arlwy.

Paratowyd y cawl eleni gan Alison Parsons gyda chymorth y cogydd yng nghaffi *Pethau Da* ac yn wir roedd yn fendigedig. Rydyn ni'n ddiolchgar i Alison hefyd am y pice ar y maen a'r bara brith i gwblhau profiad coginiol arbennig.





Nid noson yn unig ar gyfer llenwi'r boliau mohoni ychwaith.Cafwyd adloniant gan gynnwys cwis a baratowyd gan Beti-Wyn cyn y bwyd er mwyn ystwytho'r meddwl ac yna ddatganiad hyfryd iawn gan Lucy Jones ar y delyn gan greu awyrgylch cwbl addas ar noson o'r fath. Roedd y ddau denor yno hefyd ….nage , nid Rhys Meirion ac Aled Hall cweit(!) ond ein tenoriaid ni yma yn Y Priordy sef Peter Hughes Griffiths a Sulwyn Thomas. A diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu gwaith arbennig yn ein diddori trwy brocio a phryfocio yn eu dull unigryw eu hunain.



Heb os, uchafbwynt y noson oedd cyfle i weld fideo o Meinir yn cael ei

chyflwyno â Medal Goffa Syr T H Parry Williams yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y llynedd. Cyflwynir y fedal yn flynyddol i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad gwirioneddol yn ei ardal leol, yn enwedig gan weithio gyda phobl ifanc. Wel pwy fyddai'n haeddu'r clod hwn yn well na'n Meinir ni?! Mae Meinir wedi hyfforddi cannoedd o blant ar y piano a'r delyn a chorau, sef Bois y Dderwen a Thelynau Tywi, ynghyd â bod yn gantores arbennig iawn ei hun. Bu'n Gadeirydd Gŵyl Mawl Medi Capeli Myrddin, Llywydd Merched y Wawr Caerfyrddin a Chadeirydd Cymdeithas Cerdd Dant Cymru ac mae rhestr o'i holl orchestion yn lluosog iawn.  Rydyn ni'n browd iawn ohoni yn Y Priordy ac mae'r parch ati'n uchel iawn drwy Gymru gyfan.



A chyn gorffen – does yna'r un dathliad o'n Nawddsant yn gyflawn heb wobrwyo Bardd Cadeiriol!  Ar gyfer y gystadleuaeth eleni lluniodd Peter, yn ei ddull dihafal ei hun, limrig, a'r dasg wrth gwrs oedd cwblhau'r llinell olaf. Dyma''r limrig:



*Peth rhyfedd yn wir pe bai Dewi*
*Yn lando'n ein canol ni heddi*
*Fe wede'r hen foi*
*Mae'n siŵr yn go gloi…………….*

Cafwyd dwsenni o ymdrechion ac ar ôl i'r beirniad orffen tafoli cyhoeddodd deilyngdod.  Dewisodd y buddugwr ffugenw digon cyfarwydd i ni, sef *Teresa M*ê – a'r ymdrech fuddugol:

*Mae angen fy mhregeth ar Gymru*

Eisteddodd Mr Sulwyn Thomas yn hedd yr Eisteddfod, yn fardd buddugol! Llongyfarchiadau mawr iddo.

***DIOLCH*** o galon i Peter am ei waith yn llywio a diddanu a bod yn gyswllt difyr a gwych gydol y noson.

# GWASANAETH PIP
***Gweler yr Adroddiad***












**Elen Marks…**



## OEDFA PIP
***10 Mawrth 2019***

***AGORWYD*** yr oedfa arbennig hon gyda'r gynulleidfa'n cael y cyfle i lefaru gweddi deimladwy.

Croesawyd pawb gan Jac a nododd y byddai'r gwasanaeth dan ofal aelodau PIP. Soniodd Gwion fel mae PIP yn cael mwynhau digwyddiadau'n aml, er enghraifft, brecwast yng Nghaffi *Pethau Da* yn ddiweddar.

Cyflwynwyd Emyn 58, *Jubilate* gan Gwion. Daeth Steffan ymlaen wedi'r emyn i nodi'r cyhoeddiadau. Soniodd Steffan am nifer o ddigwyddiadau sydd ar y gorwel, gan gynnwys Apêl y Mis, sef helpu'r rhai sydd â chyflwr Syndrom Down. Rhagor am hyn yn nes ymlaen!

Gwnaed y casgliad gan Jac, Anest, Gwion a Syfi gyda Beti-Wyn yn ei fendithio.

Yn ystod yr emyn nesaf, Emyn 600 *Distewch cans mae presenoldeb Duw*, daeth Steffan a Iestyn i'r pulpud. Atgoffodd Iestyn y gynulleidfa fod yr emyn cyntaf a ganwyd *[Jubilate]* yn seiliedig ar y ganfed salm, a buon ninnau ac yntau'n darllen y salm am yn ail. Wedi hyn, nododd Steffan rai o'r apeliadau a'r elusennau a gefnogodd Y Priordy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



Cafodd plant yr Ysgol Sul y cyfle i wrando ar Beti-Wyn yn sôn am Apêl y Mis, sef helpu'r rhai sydd â chyflwr Syndrom Down. Esboniodd fel mae'n iawn i ni fod yn wahanol ac nad oes unrhyw beth yn bod ar hynny, Roedd Iesu'n credu mewn amrywiaeth.

Wedi sgwrs ddifyr gyda'r plant, cafwyd cyflwyniad byr ar y sgrîn a chafodd y gynulleidfa gyfle i ailfyw rhai o'r apeliadau misol a gefnogwyd gennym dros y flwyddyn ddiwethaf

Tro'r merched ifanc oedd hi wedyn a dyma Syfi, Gwenllian ac Anest yn dod i'r pulpud.  Cawsom flas gan Syfi ar rai o'r syniadau sydd gan PIP ar gyfer y Bore Coffi ym mis Ebrill er mwyn codi arian ar gyfer Apêl Madagasagar.  Soniodd Syfi a Gwenllian hefyd am Apêl  yr Hen Sbectolau a gefnogodd Y Priordy ychydig yn ôl. Casglwyd nifer enfawr o sbectolau ar gyfer *Vision Aid Overseas* a diolchodd Gwenllian i bawb am gefnogi. Cafwyd gweddi arbennig gan Anest a chafodd y gynulleidfa gyfle i ganu Emyn 51 *Hwn yw y dydd.*


Daeth Lucy, Carina a Gareth i'r pulpud nesaf i sôn am rai o'r apeliadau eraill a gefnogwyd gan Y Priordy, er enghraifft Apêl Nadolig Cyngor Sir Gaerfyrddin a Banc Bwyd Caerfyrddin.  Nododd Lucy bod dros 6,000 o deganau i dros 1,000 i blant wedi'u casglu, yn ogystal â 2,587 o becynnau bwyd i deuluoedd mewn argyfwng yn y sir.



Cafwyd eiliad dawel gyda cherddoriaeth deimladwy ar y sgrîn cyn i Gareth ddod  i'r pulpud yn ei ail rôl, i sôn am yr Apêl ddiweddar i gasglu nwyddau ar gyfer Canolfan Galw-i-mewn, Byddin yr Iachawdwriaeth.  Bu'r ymateb yn hollol wych! Soniodd Gareth ychydig am waith y Ganolfan.

Bu Carina'n sôn sut mae'r Priordy'n cynorthwyo  apeliadau mewn ffyrdd eraill - fel Aching Arms.  Cynhaliwyd te parti arbennig er mwyn codi arian at yr apêl hon. Diolchwyd i Heledd Tomos am ei gwaith clodwiw yn trefnu'r achlysur hwn . Mae Apêl MacMillan yn un arall arall sy'n cael ei chefnogi'n flynyddol. Trefnir Bore Coffi ar ddiwrnod *'Bore Coffi Mwya'r Byd'* bob mis Medi.  Atgoffodd Carina'r gynulleidfa am ddyddiad Bore Coffi 2019, sef 25 Medi!!

Cafwyd gweddi fendithiol arall gan Lucy  a chyflwynodd Carina Emyn 869, *Meddwl am fyd.*.



Wedi'r emyn daeth Rhiannon a Lleucu i'r pulpud i sôn am apêl mis Mawrth, a chan ei bod hi'n Ddiwrnod Syndrom Down ar 21 Mawrth  penderfynwyd cefnogi'r apêl hon.  Soniodd Rhiannon ychydig am ein Erin fach ni sy'n aelod yn Ysgol Sul Y Priordy a diolchwyd i'w rhieni, Non a Carwyn, am eu help yn trefnu'r apêl.  Anogwyd pawb i wisgo sanau arbennig yr Apêl ar 21 Mawrth  a bu aelodau PIP yn

eu gwerthu ar ôl yr  oedfa.  Cafwyd presenoldeb model arbennig iawn i fodelu'r sanau! Ie, Beti-Wyn!  Gwnaeth hi waith gwych yn eu modelu, gan gerdded i fyny ac i lawr yr eilion!

Tro Lleucu i weddïo oedd hi wedyn a chafwyd gweddi hyfryd o deimladwy ganddi.


***DIOLCHODD*** Beti-Wyn i bawb am eu presenoldeb yn yr oedfa a chanodd y gynulleidfa yr emyn olaf sef Emyn 871 *Dyro dy gariad i'm clymu.*  Cafwyd cyfeilio penigamp gan Fand Y Priordy yn ystod yr emyn hwn ac yn wir yn ystod yr emynau i gyd drwy'r oedfa!
Daeth yr oedfa i ben gyda bendith Beti-Wyn.

## DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

***Alun Charles a'r Teulu***

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***




**YR ALWAD**

**Aled Davies,**
**Beti-Wyn James**

**Cyfarfod lansio'r Gyfrol**
**Nos Fercher, 15 Mai 2019**
**Y Priordy am 7.30**

**Cyhoeddiadau'r Gair**
**Bangor**

**£8.99**

**Cwrdd Chwioyrdd**

**Cynhelir Cwrdd Chwiorydd Gorllewin Caerfyrddin ar Nos Fawrth, 30 Ebrill 2019 am 7 yn Festri Heol Awst**

## Papur Priordy'n dod i adnabod…



### CATRIN THOMAS

***Mae Catrin Thomas sy'n byw yn Hermon, Y Glog, Sir Benfro, yn fyfyriwr yng Ngholeg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac yn ymgeisydd am y weinidogaeth. Fel rhan o'i hyfforddiant bydd yn treulio tri mis yn cysgodi Beti-Wyn yn ein Gofalaeth rhwng dechrau Mai a diwedd Gorffennaf 2019. A dyma gyfle i ni ddysgu ychydig amdani cyn iddi ddod atom.***

**PP: Wel, i ddechrau Catrin, dywedwch ychydig wrthym am y dyddiau cynnar - man eich geni a'ch magu ac ati.**
**CT:** Ces i fy ngeni yn Hazelhurst, Baglan Road, Port Talbot. Roedd fy Nhad, y Parchedig Kenneth Shadrach Morgan, yn weinidog ar y pryd yn y Tabernacl. Robert oedd y cyntaf anedig ac yn blentyn prysur iawn. 19 mis yn ddiweddarach fe ddes i i'r byd. Babi tawel oeddwn i, medde Mam, i gymharu â Rob. Wrth gwrs, pharodd hyn ddim yn hir! Mynychais Ysgol Pontrhydyfen; a'r unig atgof sy gen i yw chwarae'r triongl yn y band taro. Yn 5 oed symudodd y teulu i gylch newydd.

**PP: Fel merch y Mans felly, mae'n siŵr eich bod wedi symud tipyn o le i le wrth dyfu i fyny.**
**CT:** Do, aethom o Bort Talbot i Sgiwen. Ganwyd Jonathan yn ystod y cyfnod hwn. Symud i Gwmllynfell, Llandysilio a'r Tymbl Uchaf wedyn. Symudodd Dad, Mam a Jonathan i ardal Gorseinon. Penderfynais osod rhyw fath o sylfaen i fy hunan ac aros yng Nghapel Bethania, Tymbl Uchaf, am dros 30 o flynyddoedd, a byw yn yr ardal er i mi symud tŷ deirgwaith. Ym 1986, priodais ag Emyr Wyn. Roeddwn yn weithgar yn y capel, yn organyddes, athrawes Ysgol Sul ac am gyfnod, yn arweinydd y gân, ac yn ddiweddarach yn ddiacones. Sefydlwyd Adran ac Aelwyd yr Urdd gan Emyr a finnau a chael y pleser o hyfforddi'r plant ar gyfer cystadlu. Cawsom sawl penwythnos pleserus gyda'r plant yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

**PP: Mae yna gyswllt rhwng teulu Beti-Wyn a'ch teulu chi on'd oes?**

**CT:** Roedd Nana, mam fy Nhad yn ffrind gorau i Mam-gu Beti-Wyn. Plentyn oedd Beti-Wyn ar y pryd a finnau'n ferch ifainc ond yn

ddiweddarach, wedi colli Nana a Mam-gu Beti-Wyn, ymddeolodd Grampa o yrru lorïau. Cafodd swydd yn Nhŷ John Penri yn mynd â llyfrau o amgylch ysgolion. Yn ddiweddarach, ac yntau'n 80 oed, bu'n glanhau Tŷ John Penri. Y pryd hwnnw, cafodd Beti-Wyn swydd fel ysgrifenyddes i'r Parchedig Ioan Wyn Gruffydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i Beti-Wyn, a hithau'n ferch ifainc, am alw gyda Grampa i wneud yn siŵr fod popeth yn iawn ar ôl iddo bennu gweithio. Daethom yn ffrindiau dros y blynyddoedd a hyfryd oedd dilyn ei gyrfa yn y weinidogaeth. Mae'n ffrind annwyl ac arbennig i mi ac er fy mod dipyn yn henach dwi'n falch iawn o'i chyngor a'i chymorth bob tro.

**PP: Mae'r capel wedi chwarae rhan bwysig yn eich bywyd o'r dechrau'n deg, siŵr o fod.**

**CT:** Ydy wir, fel plant y Mans roeddem yn gafarwydd â mynd i'r capel, yr Ysgol Sul a'r '*Band of Hope'*. Yn y capel roedd sawl Anti ffug gyda ni'n cadw trefn arnom yn y gwasanaeth, oherwydd roedd Mam yn Nyrs ac yn gorfod gweithio i gael dau ben llinyn ynghyd. Doedd tâl gweinidog ddim yn llawer yr adeg hwnnw. Rwy'n cofio'r *Whitsunday Tea* yn Sgiwen. Pob capel yn gorymdeithio trwy'r dre y tu ôl i Fyddin yr Iachawdwriaeth, ac yna'n dod yn ôl i gael te gyda'n gilydd i ddathlu'r Sulgwyn. Atgofion melys sy gen i o Gwmllynfell hefyd - Dad yn dysgu côr y capel i berfformio *Cantata'r Adar.*

**PP: Rydych wedi ymwneud llawer â phlant dros y blynyddoedd. Allwch chi ymhelaethu ychydig?**

**CT:** Dechreuais gyda phlant dan anfantais - dwys y rhan fwyaf ohonynt. Roedd hyn yn agoriad llygad, oherwydd fel NNEB cymwysedig ifanc a dibrofiad, roeddwn yn sylweddoli ar ôl cyfnod nad oedd rhai o'r plant yn cael eu haddysgu. Roedd yr athrawon wedi bod yno am flynyddoedd. Cofiwch fod hyn cyn i Adroddiad Warnock ddatgan bod pob plentyn yn gorfod derbyn addysg. Datblygodd yr ysgol yn well wedi i staff newydd ddod a gobeithio fy mod wedi chwarae rhan fach bwysig yn addysgu'r plant yn ôl eu cryfderau. Symudais i Ysgol Gynradd Pontybrenin ac yna i uned i blant ag anghenion arbennig ym Mhenlan, Abertawe. Es i'n ôl am gyfnod arall i Ysgol Pontybrenin cyn agor Meithrinfa Gymraeg breifat,*Camau Bach,* yn Nhre-fach, Llanelli. Tipyn o ben tost oedd sefydlu'r Feithrinfa i gwrdd â'r safon uchel ofynnol. Roedd hawl gyda ni i dderbyn 21 o blant o 3 mis i 10 oed.



Lle cartrefol iawn oedd y Feithrinfa, ond fe'i gwerthwyd gennym, ac am gyfnod cymerais hoe o weithio. Bûm yn swyddog maes yn agor

cylchoedd *Ti a Fi* newydd yn ardal Abertawe ac wedi i ni symud i Sir Benfro yn arweinydd Cylch Meithrin Bwlch-y-groes**.**

**PP: Ar adeg pan fo cymaint o sôn am drai crefyddol tybed beth sy'n eich perswadio i arallgyfeirio ac ymuno â'r weinidogaeth?**
**CT:** Yn ystod y cyfnod ym Methania, Tymbl, daeth yr Eglwys yn bwysig ac yn rhan o'm bywyd.  Roeddwn yn rhan o deulu Cristnogol ac yn ymwneud llawer â ffrindiau o'r un anian â mi. Wnes i eiroed ystyried peidio â mynd i'r capel, er i Dad fyth  orfodi ni'r plant i fynd.  Pleser pur oedd bod yn athrawes Ysgol Sul gyda Gwyneth Williams sy'n dal i gynnal yr Ysgol Sul a thipyn o blant yno o hyd..Dechreuais bregethu sawl blwyddyn yn ystod yr wythdegau ond wrth weld y cynulleidfaoedd yn dirywio ar y pryd  ro'n i'n teimlo'n eitha diflas - er bod y croeso bob tro'n dwymgalon. Teimlais fod fy lle i'n ôl gyda'r plant yn yr Ysgol Sul. Nhw yw dyfodol ein ffydd.  Ond wedi i ni symud i Sir Benfro dechreuais bregethu eto a theimlo galwad Duw i'w waith o hybu a rhannu'r Newyddion Da. Tybiaf dros y blynyddoedd fy mod wedi tyfu o fewn Cymdeithas Eglwys Iesu Grist. Mae Ef yn ganolog i'm bywyd bob tro.

**PP: Oes agwedd ar y weinidogaeth Gristnogol sy'n apelio'n arbennig atoch?**
**CT:** Ceisio rhannu gair Duw trwy annog pobl i weithredu'r hyn maen nhw'n ei glywed, a gwneud hynny'n bersonol a chyda'n gilydd. Wrth gwrs,  byddwn i'n hoffi trefnu oedfaon ar gyfer yr ifainc a phob oedran ac annog y gynulleidfa i gymryd rhan o dro i dro. Gobeithiaf gymdeithasu gydag eraill y tu fas i'r Eglwys. Mae'n bwysig i'r Cristion weithredru fel y disgyblion 'slawer dydd. Rwy'n hoff o gymysgu a siarad â phobl o bob oed.

**PP: Yn deall bod cerddoriaeth yn chwarae rhan bwysig yn eich bywyd….**
**CT:** Rwy'n credu fy mod yn dilyn fy Nhad a oedd yn hoff iawn o ganu, er i Mam hefyd gyrraedd gradd wyth yn chwarae'r piano cyn ei bod hi'n 12 oed. Fe ges i gwpl o wersi ond doeddwn i ddim yn hoff o fynd oherwydd bod yr athrawes mor gas i mi. Dysgais fy hunan wedyn i chwarae wrth ddechrau ar yr emynau yn *Y Caniedydd* heb *fflats a sharps,* a gweithio trwy'r llyfr nes fy mod yn gallu chwarae pob emyn!  Pan oedd Jonathan yn 12 oed dechreuais ei ddysgu i chwarae'r piano. Doedd ganddo ddim diddordeb ar y pryd ond aeth ymlaen gyda cherddoriaeth ac mae'n chwarae rhan bwysig yn ei fywyd.



Dwi'n dwlu dysgu plant i ganu yn y tŷ. Wrth weithio gyda phlant dros y blynyddoedd, teimlaf fod canu a cherddoriaeth wedi chwarae lle amlwg yn fy mywyd ac yn para i wneud. Bûm yn aelod o nifer o gorau a phartîon dros y blynyddoedd ac ym Methania a chylch capeli Emyr roedd gennyf barti canu a oedd yn diddanu cynulleidfaoedd yn y capel ac yn y gymdeithas.

**PP: Rydych yn briod â gweinidog [Y Parchedig Emyr Wyn Thomas, Hebron, Nebo, Glandŵr, Cefn-y-pant, Llwyn-yr-hwrdd, Brynmynach] ond mae yna amser i hamddena, gobeithio! Soniwch am yr hyn a wnewch yn eich oriau hamdden.**

**CT:** Rwy'n aelod o ddau gôr - Côr Crymych a'r Cylch a Chôr Merched Lleisiau'r Cwm, Glanaman, ac yn mwynhau bod yn y ddau ac yn cael profiadau arbennig. Rhai profiadau sy'n sefyll mas yw canu yn yr Eglwys Gadeiriol yn Belfast gyda Chôr Crymych a hefyd yn Stadiwm Principality yn y côr enfawr cyn gêm Cymru yn erbyn Siapan. Mae Emyr a fi'n hoff o fynd ar ein gwyliau yn y *Motorhome* gyda Charafanwyr Cymru a chyda ffrindiau yn yr Eisteddfod.



***Diolch yn fawr iawn am ateb y cwestiynau, Catrin, ac edrychwn ymlaen at eich cyfarfod ar Sul cyntaf Mai! A phob hwyl gyda'r cwrs!***



# CWIS EBRILL

**Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'E'**

**Mae'r atebion i gyd yn y Beibl**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | E | | | | | | | |
| 2 | E | | | | | | | |
| 3 | E | | | | | | | |
| 4 | E | | | | | | | |
| 5 | E | | | | | | | |

## Cliwiau

| | |
|---|---|
| 1 | Y man y bu'r frwydr rhwng Israel a'r Philistiaid, y lladdwyd meibion Eli ac y collwyd yr arch (1 Samuel 4:1) |
| 2 | Llysieuyn gwenwynig na ellid yn hawdd ei wahaniaethu ar y cyntaf oddi wrth wenith (Mathew 13:25) |
| 3 | Dadlau o blaid un arall (Eseia 53:12) |
| 4 | Gweithiwr mewn aur (Eseia 40:19) |
| 5 | Gair yn disgrifio Philip 'un o'r Saith' yr arhosodd Paul yn ei dŷ yng Nghesarea (Actau 21: 8) |

***Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!***
***Atebion yn y rhifyn nesaf***

**ATEBION CWIS MAWRTH**

***1. Melita 2 Moreia 3 Massa 4 Marwor 5 Molada***

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn, Huw Jones, Lleucu Edwards ac Irene Williams am y lluniau'r mis hwn



**Beth am droi at: cyfundeb.com?**

**Eirlys Jones…**



# DYDD GWEDDI'R BYD

***1 Mawrth 2019***

Dyma'r enw newydd ar Ddydd Gweddi Chwiorydd y Byd o eleni ymlaen!



Cynhaliwyd yr oedfa Gymraeg yn Eglwys Llanllwch dan lywyddiaeth y Parchedig Ann Howells, Offeiriad yr Eglwys.



Lluniwyd yr oedfa eleni gan Chwiorydd Slofenia. A'r thema oedd *DEWCH MAE POPETH YN BAROD*.

Duw yn cynnig gwledd a dathlu gwirioneddol mai cariad sydd wrth wraidd y cynnig a bod croeso i bawb yn ôl Efengyl Luc – *'Gwyn ei fyd pwy bynnag a gaiff gyfran yn y wledd yn nheyrnas Dduw'.*




Cymerwyd rhan gan gynrychiolaeth deilwng o gapeli ac eglwysi'r Dre, gan gynnwys y Parchedig Beti-Wyn, Eira Phillips, Catrin Heledd Jones ac Eirlys Jones o'r Priordy.

Daethom oddi yno gyda gweddi o fendith i fod yn gefn i'n gilydd ar y llwybr at ryddid, cyfiawnder a heddwch.

**Diolchwn** i Chwiorydd Slofenia am y gwasanaeth a fydd yn ein herio ac yn fendith i ni i gyd.

# YSTAFELL PILI PALA

Agorwyd Ystafell Pili Pala yn swyddogol ar 22 Chwefror 2019, sef ystafell brofedigaeth benodol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glangwili.




Mae'r ystafell wedi cael ei datblygu er mwyn darparu man cyffyrddus a phriodol i deuluoedd sy'n wynebu colli babi.  Datblygwyd yr ystafell er mwyn creu awyrgylch lle gall teuluoedd dreulio amser gyda'u babi mewn ardal breifat a chartrefol.



Bu dwy o'n haelodau sef **Heledd Tomos a Non Edwards** yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r ystafell ar ôl adnabod yr angen am y gwasanaeth pwysig yn dilyn profiadau personol.



**PEN-BLWYDD VICTOR JONES**
**YN 100 OED**










# Ifanc@Priordy

**Bore Coffi i Apêl Madagasgar**

**Ebrill 13 Rhwng 10 a 12**


**yn y festri**

**STONDIN PIP** **Cofiwch ddod i helpu**






Cofiwch ddychwelyd eich blychau Smarties i'r gwasanaeth ar Ebrill 14!



**Eisteddfod** - Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir



**Y Pasg!**
Dewch i gerdded i gopa Bryn Myrddin gyda ni am 2.30 o'r gloch brynhawn Gwener y Groglith. Mae angen help arnom i gario'r groes



# Bore Sul Y Pasg!

Bydd oedfa arbennig i bawb yn y Priordy am 10, a helfa ŵyau yn y festri! Dewch i ddathlu!

| Dyddiadur | Ysgol Sul | PIP |
|---|---|---|
| Ebrill 7 | Ysgol Sul | PIP |
| Ebrill 14 | Cwrdd Plant a Phobl Ifanc | BLYCHAU SMARTIS YN ÔL |
| Ebrill 21<br>Sul y Pasg | Dim Ysgol Sul<br>Oedfa a Helfa Wyaul | Dim PIP<br>Oedfa a Helfa Wyau |
| Ebrill 28 | Dim Ysgol Sul | Dim PIP |
| Mai 5 | Ysgol Sul | PIP i aros yn yr oedfa |


Ail drefnwch y llythyrau hyn i ddod o hyd i eiriau sy'n ymwneud â'r Pasg! Pob lwc!

**SOREC**
**DdBE WGGA**
**DFOGTAAIYD**
**DdTYDYR YDDd**
**SUEI YWB**

Hwyl am y tro
Mwynhewch Y Pasg
Beti-Wyn

# CROESHOELIAD
# JOHN STAINER
## *Y Priordy – Nos Sul, 24 Enbrill 2019*




Croeshoeliad

John Stainer

Trosiad i'r Gymraeg: Dafydd Wyn Jones

Corau Unedig

Seingar a Tŷ Tawe

Capel Y Priordy

Caerfyrddin

Nos Sul, 24 Mawrth 2019

am 6 o'r gloch

Efan Williams - Tenor

Gwyn Morris - Baritôn

Organydd - Meirion Wynn Jones

Elw i Llyfrau Llafar y Deillion



***Llwyddwyd i godi £1000 at Lyfrau Llafar Cymru***



**Irene Williams…**



# DEFFROWR MAWR TSIEINA

***YN YSTOD*** yr haf eleni, bydd Undeb y Bedyddwyr yn cynnal cyfarfodydd yn Aberteifi o dan lywyddiaeth Y Parchedig Irfon Roberts i dynnu sylw at fywyd Timothy Richard. Bu farw'r cenhadwr enwog 100 mlynedd yn ôl, ym mis Ebrill 1919, yn Llundain.



Bydd dathliadau niferus ym mro ei febyd yn Ffaldybrenin, yn cynnwys teithiau cerdded, darlith gan aelod blaenllaw o'r BMS, atgofion amdano a hanes ei deulu.

Roedd yn un o naw o blant ac yn fab i Timothy ac Eleanor Richard.Gof oedd ei dad. Un oedd yn ymweld â'r teulu pan oedd Timothy Richard yn ifanc oedd y Parch Rowland Williams o Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Ai hyn oedd y dylanwad cynnar arno?

Treuliodd ei fachgendod fel mab fferm Tan yr Esgair yn Ffaldybrenin gan fynychu capel Salem, Caio a'r ysgol leol. Aeth i Goleg y Bedyddwyr yn Hwlffordd am dair blynedd. Yr adeg honno roedd y rhan fwyaf o genhadon yn mynd  i India ond yn Tsieina yr oedd diddordeb Timothy Richard. Pe bai ei gais yn cael ei wrthod yn ei gyfweliad i fod yn genhadwr yno ,ei ymateb fyddai:*"Byddaf yn nofio i Tsieina*"!

Treuliodd 45 mlynedd mewn gwahanol ardaloedd yn Tsieina ond ychydig sydd yn gwybod am hanes y Cymro hwn. Mae ei hunangofiant "*Forty Five Years in China"* (1916) yn drysor gwerthfawr. Gwelodd dlodi ac afiechyd aruthrol. Bu dros 20 miliwn farw yn Shanxi rhwng 1876-1879 yn unig. Gwelwyd cyrff ymhobman,babanod yn cael ei taflu i'r domen a'r bleiddaid. Bu'n rhaid llosgi tai er mwyn osgoi oerfel a lladd anifeiliaid er mwyn cael bwyd.

Dysgodd Timothy Richard sawl iaith, rhoddodd addysg i'r tlodion,

dylanwadodd ar yr awdurdodau i gael y rheilffyrdd cyntaf i gludo bwyd i'r anghenus,cyhoeddodd filoedd o bamffledi a llenyddiaeth amrywiol a'r papur dyddiol cyntaf mewn sawl tref. Cyfeithiodd nifer fawr o lyfrau hefyd i'r Saesneg.

Bu'n teithio ar gefn ei geffyl i gynnal dosbarth Sieineaidd. Treuliodd fisoedd mewn teml Fwdiaidd a daeth i'r casgliad fod rhinweddau Bwdiaidd Mahayana yn debyg i Gristnogaeth sy'n sôn am gariad, cyfiawnder a goddefgarwch. Dywedodd wrth ddarllen "*Sraddhotpanda Shastra" (The Awakening Faith)* taw Efengyl Iesu Grist oedd hon mewn gwisg Asiaidd! Dylanwadodd ar sefydlu'r Brifysgol gyntaf yn Shanxi yn 1902 lle bu'n bennaeth am y deng mlynedd cyntaf. Cafodd anrhydeddau lu ac ar ôl iddo ymddeol cafodd Ddoethuriaeth Prifysgol Cymru ac mae'r gŵn a wisgodd ar gyfer yr achlysur i'w gweld yn yr amgueddfa yn Abergwili.




Yn rhyfedd iawn,yr un haenen o Fwdiaeth ag yr oedd Timothy Richard yn ei chymeradwyo, sef "*Pure Land Buddhism*", sydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant,Llanbedr Pont Steffan heddiw. Bu'r arweinydd, sef y Venerable Master Chin Kung a'i ddilynwyr yn ymweld â mi yn 2016 a diddordeb heintus ganddynt yn hanes ac astudiaethau'r cenhadwr o Ffaldybrenin.



Ym 1995, gwahoddwyd fy ngŵr, **Cyril Williams,** i ysgrifennu llyfr ar hanes y cenhadwr Timothy Richard, 75 mlynedd ar ôl ei farwolaeth. Gwnaeth grynodeb o gyfrol swmpus a chael benthyg Beibl y teulu yn ogystal â chyfraniadau gan berthnasau a phobl leol. Gwerthwyd pob copi o'r llyfr yn ardal Ffaldybrenin ac mae'r Bedyddwyr yn gobeithio cyhoeddi ail argraffiad, gyda'r Academi yn Llanbedr Pont Steffan yn cyfieithu i'r Saesneg.

Yn ôl Timothy Richard, pwrpas yr Efengyl oedd achub dyn yn gorff, enaid ac ysbryd 'Roedd wedi blino ar y deallusion a oedd yn hybu cystadleuaeth,a oedd yn cecran am wahanol grefyddau,a oedd yn dangos diffyg parch tuag at grefyddau eraill,a oedd yn brin o

wybodaeth ac yn arddel barnau anhyddysg. Roedd ei bwyslais e ar waredu'r tlodi, rhyfeloedd cartref, streiciau, anwybodaeth ac ofergoeledd a chynaeafu tiroedd y ffermydd yn ôl y ddysg orau bosib. Roedd am waredu dynolryw rhag agweddau hunanol ac afiechydon. Cyfeiriodd at yr Iesu fel y Meddyg Da a'i grêd ef yn Nuw a Christnogaeth fel crefydd fawr y dyfodol. (Gweler "New Testament of Higher Buddhism").




***ROEDD*** Timothy Richard yn arloeswr, yn weledydd,yn broffwyd ac yn un o'r cewri mwyaf a fagodd Cymru. Roedd yn ŵr o flaen ei oes,ac yn un o'r cenhadon mwyaf a aeth o Gymru i'r Dwyrain Pell. Bu dylanwad ei syniadau'n drwm ar fywyd crefyddol a chymdeithasol Tsieina a thestun rhyfeddod yw ei ddiwydrwydd fel awdur, a hynny o dan anfanteision mawr. Mae ei neges yn fwy perthnasol heddiw nag erioed.

| **UNDEB BEDYDDWYR CYMRU'N COFIO CANMLWYDDIANT MARW TIMOTHY RICHARD 17 Ebrill 2019** | |
|---|---|
| **9.30** | Taith dan arweiniad y Parchedig Peter Thomas (ar fws yn cychwyn o Lambed) i ymweld â'r mannau lle cafodd Timothy Richard ei godi a'i feithrin yn y Ffydd Gristnogol. Dadorchuddio cofeb newydd. |
| **12.00** | Coffi / Te yn Ffaldybrenin (Angen dod â chinio pecyn). |
| **2. .00** | Gwasanaeth dwyieithog yn Salem, Caio (yng nghwmni'r Dr Andrew T Kaiser, awdurdod ar Genhadaeth yn Tsieina ac aelodau o deulu Timothy Richard) cyn dychwelyd i Lambed. |
| **Am wybodaeth bellach ac i archebu lle ar y bws Cysyllter â mennajones@ubc.cymru erbyn 10 Ebrill fan bellaf** | |

**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

# SUL Y FAM

Braint oedd cael bod yn y  Cwrdd Teulu yn y Priordy ar Sul y Fam, y pedwerydd Sul yng nghyfnod y Grawys, sy'n cael ei gydnabod a'i ddathlu gan Gristnogion drwy Ewrop a mannau eraill.



Fel arfer, caiff y mamau rodd ar y diwrnod arbennig hwn, fel tusw o flodau'r gwanwyn, cardiau a chynnig rhoi help llaw iddyn nhw. Ond cyn y maldodi, roedd rhaid i chwech o famau'r Priordy dorchi llewys gan iddynt gymryd yr awennau yn y gwasanaeth!

Cariad oedd thema'r gwasanaeth. A diolch i **Selina** am weddïo am gariad a gofal Duw, i **Non** am egluro arwyddocâd Sul y Fam, i **Mwynwen** am esbonio sut gall Eglwys fel y Priordy fod yn fam i ni, i **Mari Grug** am ddarllen am Gariad o Lyfr Cyntaf y Corinthiaid ac i **Fflur Dafydd** am ddatganiad o'i chân *Ffydd, Gobaith, Cariad* a **Geinor** am grisialu'n diolchiadau mewn weddi. Wrth ddod ymlaen roedd rhai mamau wedi gosod Tusw o Flodau, Croes a Beibl ar y Bwrdd Cymun ac ystyr arwyddocaol i'r cyfan ohonynt.  Cawsom hefyd weld a chlywed cyfarchion byr a bywiog nifer o blant yr Ysgol Sul i'w mamau ar y sgriniau..

Un o emynau poblogaidd y Cwrdd Teulu yn y Priordy yw *Cariad Crist sydd yn rhyfeddol* (*Caneuon Ffydd 412),* yn enwedig y gytgan sy'n ein galluogi i wneud symudiadau â'n dwylo:

***Mor dal, fedra'i fyth fynd drosto fe***
***mor ddwfn, fedra'i fyth fynd dano fe,***
***mor llydan fedra'i fyth fynd heibio fe,***
***O gariad mawr!***



Wel, roedd pob math o gyfarpar mesur gan ein Gweinidog wrth annerch y plant ar ffurf cwpanau o wahanol faint, jygiau, pren a thâp mesur i geisio canfod beth yn union yw maint cariad Duw. Ond, er pob ymdrech, daethwyd i'r casgliad fod ceisio mesur taldra, dyfnder ac ehangder Cariad Duw y tu hwnt i'r un teclyn mesur!  Mae e mor anferthol!!  Ond yn fwy na hynny, fel y dangosodd yr abrawf gyda'r magned, mae e mor enfawr o gryf. Mae'n gallu nid yn unig ein denu ni ato ond hefyd eraill drwon ni!

Yn ddiweddglo i'r gwasanaeth cydganwyd yr emyn *Dyro dy gariad i'n clymu (Caneuon Ffydd 871*) i gyfeiliant sain gwych Band y Priordy. Derbyniodd pob gwraig rodd o flodyn hardd (a diolch i Mair Baston am ei chymorth) a phob plentyn un o fisgedi *Jammie Dodgers* (sy'n cael eu gwneud yn Ffatri Bisgedi Burtons Llantarnam, gyda llaw). A pham y rhain, meddech chi? Wel mae'r jam yng nghanol y bisgedi hyn ar ffurf calon sydd, wrth gwrs, yn symbol o gariad.




Bore hyfryd yn wir a dechrau da i Sul y Fam gyda chwrdd yn yr eglwys yn gyfrwng i'n helpu i werthfawrgoi gwir ystyr y diwrnod arbennig hwn. Diolch i'n Gweinidog am saernïo'r cyfan mor rhagorol.

**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**

**Diolch yn fawr iawn i Eirlys Jones ac Eurwen Jones am helpu yn y Bore Coffi ar ran y Priordy.**

## NOS IAU CABLYD A GWENER Y GROGLITH

**Y TABERNACL, CAERFYRDDIN**

| NOS IAU CABLYD | DYDD GWENER Y GROGLITH |
|---|---|
| *18 Ebrill 2019* | *19 Ebrill 2019* |
| *7.00pm* | *10.00am (yn unig)* |
| OEDFA GYMUN | OEDFA BREGETHU |
| Y PARCHEDIG | Y PARCHEDIG |
| PETER CUTTS | JOHN TALFRYN JONES |
| *Caerfyrddin* | *Rhydaman* |

**TAITH GERDDED Y PASG - CYTÛN**

*Dydd Gwener 19 Ebrill 2019 - 12 o'r gloch, gan ddechrau o'r Capel Wesle lle bydd paned ar gael ymlaen llaw*

**CARIO'R GROES I BEN BRYN MYRDDIN**

**Prynhawn Gwener y Groglith, 19 Ebrill 2019**

*Manylion pellach mewn man arall yn y Papur*

# TUDALEN BLAEN

**Rheswm  Rhian Jones dros ddewis**
***' Dwy law yn erfyn…..'***



Dyma oedd fy hoff emyn pan oeddwn yn blentyn yn mynychu Capel Newydd Llanddarog a hyd yn oed heddiw



mae'n parhau'n ffefryn ac yn un sy'n cael ei ganu'n aml gennyf o amgylch y cartref.

Yn ystod fy nyddiau cynnar byddwn ambell dro'n aros gyda modryb fy mam wrth fy hunan a phan oeddwn yn teimlo tamaid o hiraeth am adref roedd hi'n gysur mawr i mi gael gweld llun o ddwylo mewn gweddi ar y wal uwchben y gwely.

Byddai'r llun hwn yn gwneud i fi ganu'r emyn ac yn rhoi llonyddwch meddwl i mi cyn mynd i gysgu.

Hefyd, pan oedd fy mhlant yn fabanod ac yn methu â chysgu yn ystod y nos ambell dro am ryw reswm neu'i gilydd byddent yn mynd yn ôl i gysgu ar ôl i fi ganu'r emyn hwn unwaith neu ddwywaith.



**T Rowland Hughes**
**(1903-49)**
**Awdur yr Emyn**

**Bardd a Nofelydd**
**Yn wreiddiol o Lanberis**

***Llun : Rhian gyda'i gŵr Dennis***

# ‘Agor y Gair’

***Cyfres  Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg yng Nghaerfyrddin***

**Boreau Mercher 12, 19, 23 Mehefin a 3 Gorffennaf 2019**
**11.00 tan 12.00**

**Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin**

**Arweinwyr**
**Y Parchedig Peter Cutts a’r Parchedig Beti-Wyn James**

**Croeso cynnes iawn i bawb**

## CWRDD EGLWYS Y PRIORDY

***Bore Sul y Cwrdd Teulu ar 31 Mawrth 2019***

**Yn dilyn cyflwyniad gan ein Gweinidog, penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn argymhelliad y diaconiaid a symud ymlaen i wahodd ceisiadau am Gynorthwy-ydd Gweinidogaethol i weithio ymhlith Ieuenctid a Theuluoedd yr Eglwys.**
**Swydd ran-amser am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau yw hon.  Caiff y swydd ei hysbysebu ym Mhapur Priordy yn y lle cyntaf.**

## CROESAWU FICER NEWYDD SAN PEDR



Ficer newydd Eglwys San Pedr, gydag Abergwili a Chapel-y-groes,  a Deon Bro Caerfyrddin  yw’r **Parchedig Ddr Matthew Hill**.  Cynhaliwyd y Gwasanaeth Sefydlu yn Eglwys San Pedr ar Nos Fercher, 27 Mawrth 2019.  Cafwyd gair o groeso i’r Dr Hill, sy’n rhugl ei Gymraeg, gan y Parchedig Beti-Wyn ar ran capeli tref Caerfyrddin, Dymunwn yn dda i’r Dr Hill a’I deulu yn ein tref ac edrychwn ymlaen at gydweithio ag e.

## LLANW

***Gŵyl Gristnogol i’r teulu cyfan***
**Dinbych-y-pysgod  22-25 Ebrill 2019**
**Cyswllt – Nigel Davies, MIC Sir Gâr**

# Y PASG YN YR OFALAETH

**Ymunwch â ni ar gyfer**
**Gŵyl bwysica'r flwyddyn**

**Dydd Gwener y Groglith**
Cario'r Groes i Gopa Bryn Myrcddin
Cwrdd ym Maes Parcio'r Ganolfan am 2.30
Cario'r Groes i ben y Bryn
Cynnal oedfa yno am 3
Gwisgwch esgidiau addas
Paned a Chacen (£2.50) yn y Ganolfan ar ddiwedd y daith
Croeso i bawb o bob oed

**Sul y Pasg**
Oedfa Gymun Undebol am 10 y bore yn y Priordy
gyda Beti-Wyn ac eraill
Helfa Wyau Pasg yn y Festri i'r Plant

**Gorymdaith y Pasg**
Drwy bentref Bancyfelin yn y prynhawn
Gadael mynedfa'r Wenallt am 3
Oedfa fer yn y Capel a Phaned a Byns y Grog i ddilyn

***Croeso i bawb o bob oed***

***YN DYMUNO CYFAMODI?***



**DR HUW MICHAEL**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**CWMNI MYRDDIN**
***yn cyflwyno***
**DAU HANNER**
**BRAWD**
***gan***
**Nan Lewis ac Eric Jones**



**Theatr Mwldan Aberteifi - Nos Sadwrn 5 Mai 2019 am 7**

***Tocynnau: £12 ar gael gan Theatr Mwldan ☎01239 621200***

## CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN
## CYRDDAU CHWARTER 2019
***AR DDYDD IAU YM MHOB ACHOS***

| | |
|---|---|
| **9 Mai 2019 (4.00pm a 7.00pm)** | **Y Priordy** |
| **12 Medi 2019 (4.00 a 7.00pm)** | **Hermon** |
| **8 Tachwedd 2019 (10.30am a 1.30pm)** | **Henllan Amgoed** |

# DRWS AGORED

**FESTRI'R PRIORDY**

***BORE IAU 18 Ebrill 2019***

***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***

***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***

## CYFARFODYDD BLYNYDDOL YR OFALAETH



**CANA**

Nos Fercher, 8 Mai 2019 am 7

**Y Parchedig Emyr Gwynn Evans**

*Swper i ddilyn*



**BANCYFELIN**

Nos Iau, 23 Mai 2019 am 7

**Y Parchedig Ddr R Alun Evans**

*Swper i ddilyn*

***Croeso cynnes i bawb***

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018

**Mae'r Adroddiad wedi'i gyhoeddi. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi bod wrthi mor ddiwyd yn ei baratoi ar gyfer y Wasg ac yn ei ddosbarthu, yn enwedig Huw Ll Edwards, Ysgrifennydd Ariannol, ac Adrian Evans, Y Trysorydd .**

## Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio
*yn cyflwyno...*


# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### TE BACH GŴYL DEWI.




Gan fod Diwrnod Gŵyl Dewi'n disgyn yn ystod gwyliau Hanner Tymor, penderfynodd plant a phobl ifanc y Capel drefnu gweithgaredd i ddathlu a chodi arian at Apêl Madagascar. Roedd llond y byrddau o gacennau a danteithion gyda'r plant a'r mamau wedi coginio nifer ohonynt eu hunain! Yna, cafwyd cyfle i fwynhau eu doniau'n canu, llefaru a chwarae offerynnau.

### DAL ATI GYDA DIOGELU DATA !




Diolchwn i bawb sydd wedi dychwelyn y ffurflenni Diogelu Data sy'n angenrheidiol i sicrhau fod gan Eglwys Salem ganiatâd i gysylltu â'r aelodau a chyhoeddi'u henwau yn yr Adroddiad Blynyddol. Gosodir Sul y Pasg (21 Ebrill) fel dyddiad i dderbyn ffurflen GDPR neu ffurflen sy'n dweud *'Nid wyf yn dymuno parhau i fod yn aelod o Gapel Salem, Caernarfon'*. Mae'n gyfle da i wybod pwy sydd am berthyn..

### Y GYMDEITHAS - DATHLU GŴYL DEWI



Cafwyd noson hwyliog a dwy wledd i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant! . Y wledd gyntaf oedd cawl cartref blasus a chacennau cri di-ri a bara brith . Yna'r ail oedd gwledd o adloniant gan ddau gerddor ifanc dawnus, Steffan Dafydd ac Elain Peters. Mae'r ddau'n astudio cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor a chawsom fwynhau amrywiaeth o ganu a datganiadau ar y piano a'r delyn.

## DYDD GWEDDI'R BYD

*Gweler yr Adroddiad*



## OEDFA'R BORE AR RADIO CYMRU

*Gweler yr Adroddiad*



**Menna Lloyd Williams**…



***CYSTAL*** i mi roi fy mhen ar y bloc a chyfaddef na fûm i erioed yn ffan mawr o ddathliadau Gŵyl Dewi, boed yn rhai crefyddol neu seciwlar.

Serch hynny, mae'n achlysur sy'n dwyn i gof y storïau a'r traddodiadau sy'n rhan annatod o'm hetifeddiaeth, er enghraifft, hanes Dewi yn adfer golwg Pawlinws, ei diwtor dall, a'r ddaear yn codi o dan ei draed yn Llanddewi Brefi. Byddaf yn fythol ddiolchgar i'm hathrawes Gymraeg ysbrydoledig yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, Miss Myra Rowlands (Mrs Jones wedi hynny) am fy nghyflwyno i ddirgelion ac orgraff Cymraeg Canol wrth fy nhywys trwy'r gyfrol Buchedd Dewi gan Rhigyfarch ap Sulien. Bedydd tân yn wir ar gyfer astudio testunau Cymraeg Canol



gydag Arwyn Watkins yn fy mlwyddyn gyntaf yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae llawer o'r wybodaeth sydd gennym am Dewi yn dod o waith Rhigyfarch, awdur o'r 11eg ganrif, a chan iddo ysgrifennu Buchedd Dewi dros 500 mlynedd wedi i Dewi farw mae amheuaeth pa mor ddibynadwy yw'r hanes. Ond beth yw'r ots am hynny – mae stori dda bob amser yn gafael.

Yn y cyswllt hwn mae'n werth nodi bod Dewi, yn ddiarwybod iddo, wedi cyfrannu'n helaeth i economi Cymru dros y blynyddoedd. Bu i awduron, darlunwyr, cyhoeddwyr a'r fasnach lyfrau elwa ar ei hanes, sy'n parhau'n fythol-wyrdd, a chyhoeddwyd ymhell dros hanner cant o lyfrau ar gyfer plant a phobl ifanc amdano, yn Gymraeg a Saesneg, yn storïau, llyfrau posau a llyfrau lliwio.

Cystal i mi gyfaddef hefyd nad wyf yn wrandawr cyson o oedfa bore Sul ar *Radio Cymru*, ond pan sibrydodd deryn bach yn fy nghlust fod oedfa Gŵyl Dewi ar Fawrth 3ydd o dan ofal y Parch Beti-Wyn, Caerfyddin, person y mae gennyf edmygedd mawr ohoni, rhaid oedd gwrando, doed a ddel. Cwta bythefnos ynghynt roeddwn yn oedfa'r bore yn y Priordy a phrofais yr agosatrwydd a'r cynhesrwydd oedd yn cyniwair trwy'r gynulleidfa. Digartrefedd oedd y thema y diwrnod hwnw. Mae ei brwdfrydedd yn heintus a does dim pall ar ei sêl dros y pethau gorau a berthyn i ni fel cenedl.

Rai blynyddoedd yn ôl bellach, trefnon ni ymgyrch casglu llyfrau ar gyfer *Book Aid International* a chredaf fod Beti-Wyn wedi dihysbyddu pob llyfrgell ysgol yn Y Barri a thu hwnt!! Dyma berson sydd â'i bys ar byls pethau ac yn gwybod beth sy'n gwneud i blant a phobl ifanc dician,ac o ganlyniad yn gallu uniaethu â hwy a threiddio i'w byd,

Cafwyd darlleniadau graenus ac ystyrlon gan dri o ieuenctid yr eglwys, Siwan, Gwenan a Jac. Darllenodd Siwan ddetholiad o Salm 33, lle mae'r Salmydd yn nodi tri pheth pwysig, sef Mawl i Dduw, Gair Duw a Chenedl yr Arglwydd. Detholiad o'r unfed bennod ar ddeg o Lythyr Paul at yr Hebreaid a gafwyd gan Gwenan lle pwysleisir pwysigrwydd ffydd yn ein bywydau. Darllenodd Jac eiriau olaf Dewi, a gofnodwyd yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi, llawysgrif o'r 14 ganrif. Diau mai dyma neges enwocaf Dewi - '*Frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i'*.




Â Beti-Wyn rhagddi yn ei hanerchiad (nid wyf yn hoff o'r gair 'pregeth' - mae na rhyw dinc hynafaidd iddo) i nodi arwyddocâd neges Dewi a pherthnasedd dathliadau dydd Gŵyl Dewi ym mywydau pobl Cymru heddiw. Sut y gall neges a gweithredoedd Dewi barhau i ysbrydoli cymdeithas brysur yn yr unfed ganrif ar hugain.

1. Byddwch lawen - nid yw llawenydd yn beth dieithr ym mywyd Cristnogion a chyfeiria at y llawenydd a geir ym mhroffwydoliaeth Eseia,'oherwydd bachgen a aned i ni, Mab a roed i ni'.

2. Cadwch eich ffydd - ond nid tasg hawdd yw cadw'r ffydd heddiw gyda chrefydd ar drai a difaterwch cymdeithas yn rhemp. Ond un ffordd o gadw'r ffydd a gynigiwyd ganddi yw ei rannu gydag eraill. Cyfeiriodd at yr hypothermia ysbrydol sydd wedi gafael mewn sawl un ac mewn sawl cymdeithas eglwysig hefyd. Ond,nid yw ffydd heb weithredoedd yn dda i ddim.

3. Gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i. Nid yw Dewi'n rhestru'r pethau a welodd ac a glywodd ond diau bod nifer ohonynt yn cynnig her i Gristnogion heddiw, er enghraifft:

(a) estyn dwylo dros y môr - dyna amcan ymgyrchoedd llwyddiannus Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a phob lwc i Beti-Wyn ar y weiren sip ym Mlaenau Ffestiniog er budd Apêl Madagascar. Braint oedd ei noddi.

(b) dangos brawdgarwch at gyd-ddyn a chroesawu dieithriaid o ffoaduriaid i'n plith.
(c) gwarchod ein hiaith a'r traddodiadau gorau a berthyn i ni fel cenedl.

Yr un mor bwerus yw'r neges a geir yn Salm y Genedl, Jennie Eirian Davies:

Argyhoedda ni, O Arglwydd, o'n gwyro
gwamal, fel y gwelom ffolineb ein ffyrdd,
a throi drachefn at uniondeb dy lwybrau.

O Arglwydd y cenhedloedd, nac anghofia'r
genedl a geraist. Wyliwr yr holl ardaloedd, diwel
dy wlith ar Walia Wen.

***MAE*** ôl saernïo gofalus ar yr anerchiad a gafwyd o Gaerfyrddin y bore hwnnw. Un sylw bach yr hoffwn ei wneud - dydy recordiad mewn stiwdio ddim yn cyfleu agosatrwydd a naturioldeb y traethu. Mae'r awyrgylch gefndirol mor ddistaw, neb yn pesychu a dim smic o sŵn crensian papur da-da. Biti garw hefyd bod yn rhaid cyfyngu'r amseru i gwta hanner awr, ond ysywaeth, dyna'r cyfrwng y mae'n rhaid glynu ato.



***Diolch yn fawr iawn i Menna Lloyd Williams, am yr erthygl. Daw'n wreiddiol o Ynys Môn ond mae'n byw bellach ym Mhenrhyncoch. Cyn ymddeol bu'n athrawes ac am flynyddoedd lawer wedi hynny'n Bennaeth Adran Llyfrau Plant Cyngor Llyfrau Cymru yng Nghastell Brychan Aberystwyth***

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY**
**Nos Fercher 17 Gorffennaf 2019 am 7 yn y Festri**

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda***

**NEWID HINSAWDD**

**Bydd cyfres o dair erthygl gan y Dr Huw Michael ar y pwnc llosg hwn ym *Mhapur Priordy* rhwng Mai a Gorffennaf 2019**





# GWAHODDIAD ARBENNIG

**Maer Caerfyrddin**
**Neuadd Ddinesig San Pedr**
**Maes Not**
**Caerfyrddin**
**SA31 1PG**

**28 Mawrth 2019**

**At Aelodau Capel y Priordy**

**Annwyl Aelodau**

**Pleser gennyf estyn gwahoddiad i chi ymuno yng ngwasanaeth Sul y Maer am 10 o'r gloch ar Ddydd Sul**
**9 Mehefin 2019 yng Nghapel Heol Awst.**

**Gobeithiaf yn fawr y byddwch yn medru ymuno gyda fi yn y gwasanaeth o dan ofal eich Gweinidog.**



**Yn gywir**

*Jeff Thomas*

**Y Cynghorydd Jeff Thomas**
**Maer Etholedig Tref Caerfyrddin**

**GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Bore Gwener – 12 Ebrill 2019 – 11 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
***Croeso i bawb***



**MIC**
**MABOLGAMPAU DAN DO**

**18 Mehefin 2019:** Mabolgampau Gorllewin Y Sir.
**26 Mehefin 2019:** Mabolgampau Dwyrain Y Sir
**10 Gorffennaf 2019:** Mabolgampau (Rowndiau Terfynol Y Sir)

**EGLWYS Y PRIORDY, CAERFYRDDIN**

priordy

***yn gwahodd ceisiadau am***

**GYNORTHWY-YDD GWEINIDOGAETHOL YMHLITH IEUENCTID A THEULUOEDD YR EGLWYS**

priordy

**Swydd ran-amser newydd yw hon yn cynnig cyfle arbennig i berson brwdfrydig o argyhoeddiad Cristnogol fod yn rhan o dîm blaengar sydd wrthi'n ddiwyd yn cynorthwyo'r eglwys i dyfu a ffynnu**

**Manylion Pellach a Ffurflen Gais oddi wrth**

**Yr Ysgrifennydd**
**ar**
**clem.charles@btinternet.com**

**Dyddiad cau**
**Dydd Mercher I Mai 2019**




**BLYCHAU YN Y CYNTEDD**



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD**

*******

**CLWB GWYLIAU MIC**
**Gwyliau'r Pasg.**
**15-17 Ebrill 2019**
**Neuadd Penygroes**
**10:30 - 12:30**
**Mynediad am ddim.**
***gemau; cystadlaethau; gwobrau; crefft; hwyl a sbri.***
**Croeso cynnes i blant B 2– 6.**

## DYLETSWYDDAU
## GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS

| Ebrill | | Mai | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Alun Charles | Wyn Evans | Alun Charles | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrilll | 7 | | Mai | 5 | |
| | 14 | Meinir Hughes Griffiths | | 12 | Chris Lloyd |
| | 21 | | | 19 | |
| | 28 | Bronwen Wilkins | | 26 | Mair Baston |

## PARATOI'R BWRDD
## CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill (Pasg) | 21 | Bore | Catrin Heledd Jones a Jayne Jones |
| Mai | 5 | Bore | Eirlys Davies a Gill Owens |

## YMWELWYR

| | |
|---|---|
| Mawrth / Ebrill | Rhian Evans ac Eirlys Jones   Henry a Bronwen Wilkins |
| Mai / Mehefin | Glenys Thomas, Eira Jenkins ac Eira Phillips |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **7** | Mari Jenkins | **Mai** | 5 | Chris Lloyd |
| | **14** | | | 12 | Alison Parsons |
| | **21** | Carys Morgans | | 19 | |
| | **28** | Peter H Griffiths | | 26 | Tim Hayes |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ebrill** | Chris Lloyd | **Mai** | Adrian Evans |

**Y TYST**
**50c y rhifyn!  Cysyllter â Sulwyn Thomas**

# RHWYDWAITH

***LLONGYFARCHIADAU*** mawr i Gareth a Rhian Gravell ar ddod yn dad-cu a mam-gu am y tro cyntaf. Ganed bachen, Jac Morgan Cudd, i Rhian a Nick Cudd, Foelgastell, ar 19 Mawrth 2019 yn Ysbyty Glangwili yn 7 pwys a 13 owns! Ein cofion cynnes at y teulu bach a phob dymuniad da iddynt.



Bu'r Priordy'n amlwg ar **Radio Cymru** ar fore Sul 3 Mawrth. Roedd Oedfa'r Bore yng ngofal ein Gweinidog a thri o'n pobl ifainc, sef Siwan, Jac a Gwenan. Roedd graen ar y cyfan, Da iawn chi! Roedd y bore godwyr wedi clywed yr oedfa am 5.30 a'r gweddill ohonom am 11.30! A rhwng y ddau ddarlledaid bu'n Gweinidog yn cymryd rhan ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru,** gyda'r rhaglen, y tro hwn, wedi'i neilltuo i un pwnc, sef yr Ysgol Sul a'i dyfodol.



Da oedd gweld Baner y Priordy'n cwhwfan yn y Parêd Gŵyl Dewi a gynhaliwyd ar Ddydd Sadwrn 3 Mawrth. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn a diolch i'r rhai a fu'n trefnu!

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef Chris Lloyd, Gwen Williams, Elaine Davies (sydd wedi symud i gartref ym Mhencader dros dro), Mair Davies, Rhys Jones, Nigel Jenkins a Dan Evans. Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylus y dyddiau hyn.



Pob dymuniad da i'r rhai sy wedi symud tŷ'n ddiweddar, sef Myfanwy, Rhys a'r merched i Lanarthne ac Enid Evans i Dŷ Rhys. Gobeithio y byddwch yn hapus ar eich aelwydydd newydd.

Efallai i chi ddarllen erthygl ddiddorol gan Catrin Wyn Davies ym **Mhapur Priordy** (Rhifyn Chwefror) yn sôn am ei hymweliad â Chiwba. Wel, mae Catrin yn dal i grwydro a newydd ymadael am Mecsico lle bydd yn gweithio fel ffisiotherapydd. Pob lwc Catrin a gobeithio y cawn yr hanes mewn erthygl arall maes o law!

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched bu Elinor Wyn Reynolds ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** yn sôn am dair merch sy wedi dylanwadu'n fawr arni. A phwy oedden nhw, meddech chi? Wel, Nora Isaac, awdures, cynhyrchydd drama ac ymgyrchydd dros addysg Gymraeg, Maureen Lipman, actores, colofnydd a digrifwr, a Jeanette Winterson, awdures a cholofnydd. Ys gwn i beth fyddech atebion chi pe baech chi'n cael cais fel hwn? Bu Elinor hefyd ar **Raglen Aled Hughes** ar **Radio Cymru** yn trafod gwahanol fathau o hunangofiannau ar ôl i

hunangofiant Michelle Obama werthu 10 miliwn copi. Un arall a fu ar **Radio Cymru** yn ddiweddar, ar **Dewi Llwyd ar Fore Sul,** yw Tim Hayes yn rhoi sylw i gynnwys y tudalennau chwaraeon yn y papurau Sul, yn enwedig i Gymru a'r Gamp Lawn!



Ar Ddiwtrnod Syndrom Down y Byd 21 Mawrth bu Non a Carwyn Edwards ac Erin eu merch sydd â'r cyflwr yn trafod eu profiad ar **Prynhawn Da** ar **S4C**. A da oedd troi at **Facebook** a gweld cymaint o bobl y Priordy'n gwisgo'r sanau lliwgar a fu ar werth yn ein capel ar y diwrnod arbennig hwn i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr.

A chlywyd Iwan Evans, Dr Huw Michael a Rebecca Hayes yn trafod ar y rhaglen **Hawl i Holi** a ddarlledwyd o Ganolfan Yr Egin ar **S4C**.



Bydd darllenwyr y **Western Mail** wedi gweld y colofnydd Lynne Allbutt yn talu teyrnged arbennig i Irene Williams am anfon cerdyn ysgrifenedig ati'n diolch iddi am ei cholofn a'i dull o fyw. Mae'n debyg iddi ysgrifennu hefyd at Cartolyn Hitt, colofnydd arall yn diolch iddi hithau am ei chyfraniadau. Bu Irene Williams, sy'n 98 oed, yn darllen y **Western Mail** er 1948 a diolch yn fawr iawn iddi am ei chyfraniad ym **Mhapur Priordy'r** tro hwn.

A bu Elin Llwyd yn cyflwyno **Cyngerdd Teuluol Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC** yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd a Venue Cymru Llandudno yn ystod y mis.



***WEL*** does ond gobeithio'n fawr y bydd ein Gweinidog wedi dod at ei hun yn iawn ar ôl profiad y Sip er mwyn iddi allu mwynhau diwrnod mawr iawn yn ei hanes! Ar Sul y Pasg **(21 Ebrill 2019)** bydd Beti-Wyn yn dathlu pen-blwydd nodedig iawn – ffigur crwn a charreg filltir o bwys!!! Pen-blwydd hapus iawn oddi wrthom i gyd!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mai i'n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnwn ein cydymdeimlad â Sioned a Dewi Snelson a'r plant, Caleb Wyn, Gwilym Caeron ac Osian Clwyd, ar golli tad-cu Sioned a hen dad-cu'r plant, sef Dewi Glen Edwards, Pwll-trap ar 31 Mawrth 2019. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth.**

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **7** | *Bore*<br>*Nos* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog | |
| *Sul y Blodau* | **14** | *Bore* | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog | |
| *Sul y Pasg* | **21** | *Bore*<br><br>*P'nawn* | Oedfa i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Priordy<br>Cwrdd i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Gymuned ym Mancyfelin am 3 | **Cymun** |
| | **28** | *Bore*<br>*P'nawn* | Y Parchedig Meirion Morris<br>Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Meirion Morris | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mai** | **5** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog | **Cymun** |
| | **12** | *Bore* | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog | |
| | **19** | *Bore*<br>*P'nawn* | Ein Gweinidog<br>Yn ymuno â Chyrddau Blynyddol Heol Awst am 3 gyda'r Parchedig Alun Tudur | |
| | **26** | *Bore*<br>*P'nawn* | Alun Lenny<br>Oedfa i''r Ofalaeth yng Nghana am 2 gydag Alun Lenny | |

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul OP – Cwrdd Plant | | | | | | | |
| Ebrill | | | | Mai | | | |
| 7 | 14 | 21 | 28 | 5 | 12 | 19 | 26 |
| ✓<br>PIP | P | - | - | ✓ | CP | ✓ | - |

## Y GYMDEITHAS

**Nos Lun 8 Ebrill 2019 am 6**
**Ymweliad â'r Mosg am 6**



**Swper yn y Llwyn Iorwg i ddilyn**

**Nos Lun 13 Mai 2019 am 7**
**Siaradwr Gwadd**



**Llyr Huws Gruffydd AC**